Urdd

Diolch i Mrs Joyce Bowen am ddod draw i gynnal sesiwn dawnsio llinell. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn. Cynhaliwyd sesiwn arall yn paratoi cardiau Pasg gan drafod a chynllunio cyn mynd ati i greu. Bydd sawl cerdyn Pasg deniadol ar y silff ben tân yn y Penrhyn eleni eto.

Bu blwyddyn 4 yn cymryd rhan ym mhroject "grasslands" yng Nghanolfan y Celfyddydau. Creu darluniau gan hau hadau glaswellt oedd y dasg. Cafwyd rhai campweithiau. Cafwyd llawer o bleser yn y profiad gwahanol hwn.

Mae hi'n ddiwrnod y llyfr bob dydd yn Ysgol Penrhyn-coch, ond cafwyd cyfle i wisgo lan ar y dydd penodedig i'r Llyfr.

Chwaraeon

Hoci – mae Merched Bro Dafydd wedi chwarae yn dda iawn drwy gydol y tymor.

Daeth tîm y Penrhyn yn drydydd yn y gynghrair a chydradd cyntaf yn y gwpan. Da iawn chi blant. Llawer o ddiolch i'r mamau am eu hyfforddi.

Rygbi – mae'r bois wedi chwarae mewn sawl cystadleuaeth eleni ac wedi cael llawer o hwyl a sbri. Hyfryd gweld y bechgyn yn manteisio ar y cyfle i ymarfer yn y Clwb Rygbi bob nos Wener a chwarae i'r clwb ar fore Sul. Daliwch ati fechgyn mae ar dîm Cymru eich angen!!